The Television Centre
Culverhouse Cross
Cardiff
CF5 6XJ

Y Ganolfan Ddarlledu
Croes Cwrlwys
Caerdydd
CF5 6XJ

T 029 20 590 334
F 029 20 590 335
www.greenfieldmedia.com
info@greenfieldmedia.com

DATGANIAD I'R WASG

Llyfr Recordiau Byd Guinness yn torri ei recordiau ei hun.

Mae Rhifyn 2008 Recordiau Byd Guinness yn torri ei recordiau ei hun o ran y ffigurau gwerthu yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig. Dros y bedair wythnos ddiwethaf, hwn fu'r llyfr y gwerthwyd y nifer mwyaf o gopïau ohono yn y DU, sy'n eithaf trawiadol, pan fyddwch yn ystyried y ffaith bod Llyfr Recordiau Byd Guinness wedi gwerthu dros 100 miliwn o gopïau ers ei lansio 53 o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n cael ei werthu mewn dros 100 o wledydd a'i gyhoeddi mewn 24 o wahanol ieithoedd.

Eleni, ffilmiwyd yr hysbyseb teledu a sinema yn gyfan gwbl yng Nghymru gan y cwmni cynhyrchu o Gymru, Greenfield, ac mae'n cynnwys Actor ifanc o Gymru, Josh Price, fel seren yr hysbyseb. Yn yr hysbyseb, caiff Josh ei dynnu i mewn i'r llyfr ac mae'n hedfan mewn vortecs mewnol, ac yn cael ei dynnu tuag at rai o'r Recordiau Byd sy'n ei ddenu fwyaf, megis y llygaid sy'n sefyll allan fwyaf yn y byd, a'r blaned fwyaf yng nghysawd yr haul.

Dywedodd Kate White, uwch rheolwr brand gyda Recordiau Byd Guinness "Mae'n hollol wych ein bod wedi cyrraedd brig y rhestr am y bedair wythnos yn olynol. Mae'n profi bod y llyfr yn parhau i fod yn hynod o boblogaidd ymhlith y gynulleidfa darged, bod y diddordeb, y swyn a'r chwilfrydedd y mae'r recordiau eu hunain yn eu creu ymhlith pobl ifanc mor real heddiw ag y mae wedi bod erioed. Rydym wedi bod wrth ein bodd gyda'r ymateb i'r ymgyrch Teledu a Sinema a grëwyd gan Greenfield, sy'n rhan fawr o'r rheswm pam bod ein cynulleidfa yn dymuno prynu copi o'r llyfr. Mae wedi cyrraedd y nod"

Dywedodd Bethan Mair Tame, pennaeth gwasanaethau creadigol a chynhyrchu Greenfield "Mae hwn yn newyddion gwych, ac rydym mor falch ein bod wedi bod yn rhan o'r digwyddiad hwn sydd wedi torri record. Gwyddon pan wnethon ymateb i'r brîff bod ein syniad creadigol yn fformwla llwyddiannus ar gyfer y llyfr, ac roeddem yn hynod o falch pan gawsom ein dewis i greu'r hysbyseb. I goroni'r cyfan, daethom o hyd i Josh, sydd wedi bod yn berl go iawn, ac ef yw seren y sioe. Edrychwn ymlaen at yr wythnosau nesaf, a mawr obeithiwn y bydd y ffigurau gwerthu yn parhau i godi."

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

Mae **greenfield** yn darparu gwasanaethau rheoli ac ymgynghori i gwmnïau twf yn y sector darlledu, gan gynnwys gweithredwyr platfform, darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol.

Mae ei arbenigedd yn cynnwys strategaethau corfforaethol a masnachol, cynllunio busnes, teledu digidol, marchnata a thrwyddedu, gwelliant gweithrediadol, polisi a rheoleiddio, rheoli hawliau a gweithredu strategaethau.

Mae ganddynt brofiad ac enw da ym maes cynhyrchu a gwaith creadigol, gan ddarparu atebion creadigol ar gyfer hysbysebu ar y teledu, hysbysebu ar y radio a hysbysebu symudol, yn ogystal â chynghori busnesau ynghylch eu strategaethau marchnata a chyfathrebu.

Gwybodaeth bellach: Tim Powell 07939 571 553